DATGANIAD I'R WASG
26 Ebrill 2010

Pobl ifanc Ceredigion yn ymweld â Senedd Ewrop

Bydd aelodau Fforwm Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru Ceredigion yn teithio i Frwsel ar 2 Mai ar daith arbennig wedi'i noddi gan yr Aelod Seneddol Ewropeaidd, Jill Evans.

Bydd 14 disgybl o Ysgolion Penweddig, Penglais, Tregaron, Llanbed a Dyffryn Teifi yn teithio yno ar yr Eurostar ac yn treulio pedwar diwrnod yn cael blas o'r ddinas yng nghwmni ei gilydd.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r criw wedi llunio Neges Heddwch ac Ewyllys Da Ieuenctid Cymru i Ieuenctid y Byd ar y cyd, a byddant yn perfformio'r Neges yn Senedd Ewrop ar 4 Mai.

Yn ystod eu hymweliad â'r Senedd, byddant yn cael taith dywys o amgylch yr adeilad, cymryd rhan mewn sesiwn cwestiwn ac ateb gyda Jill Evans ASE yn ogystal â chael gweld aelodau o Bwyllgor Amgylchedd y Senedd Ewropeaidd wrth eu gwaith.

Newid Hinsawdd yw thema'r neges eleni ac mae'n tynnu sylw at beryglon a chanlyniadau newid hinsawdd yn fyd-eang ac yn cadarnhau negeseuon ymgyrch amgylcheddol y mudiad - Urdd Gwyrdd. Gellir lawr lwytho'r Neges ar www.urdd.org a hynny mewn dros 30 o ieithoedd gwahanol.

Bydd aelodau o staff yr Urdd yn cadw cwmni i'r bobl ifanc ar eu taith yn ogystal â Mrs Elin Williams, athrawes o Ysgol Dyffryn Teifi sydd wedi cynorthwyo'r Fforwm i lunio'r Neges.

Bydd y criw yn perfformio'r Neges hefyd yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar 18 Mai. Bydd BBC Radio Cymru yn darlledu'r Neges oddi yno am 10.30 y bore. Penderfynwyd perfformio'r neges o'r Ardd Fotaneg yn arbennig i gyd-fynd â dathliadau'r Ardd yn ddeng mlwydd oed.

Byddant hefyd yn perfformio'r Neges yn ystod ymweliad arbennig â'r Senedd ym Mae Caerdydd, ac ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion brynhawn Mercher, 2 Mehefin.

Meddai Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru:
''Bydd cyfarfod Jill Evans yn Senedd Ewrop yn brofiad gwerthfawr i griw'r Fforwm Ieuenctid a hoffwn ddymuno'n dda iddynt ar eu taith. Mae'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn rhan bwysig o weithgareddau'r Urdd, ac mae'r daith hon yn profi ein bod yn gwneud pob ymdrech posib i ledaenu'r Neges eleni.''

Mae'r Neges ar gael ar wefan yr Urdd – www.urdd.org neu drwy ffonio 01970 613100.

Diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Wyn, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613115, manonwyn@urdd.org

NODIADAU I OLYGYDDION

Hanes y Neges
Anfonwyd y neges gyntaf gan Y Parch Gwilym Davies o Gwm Rhymni yn 1922. Roedd yn heddychwr mawr ac yn flaenllaw wrth sefydlu Undeb Cymreig y Cenhedloedd Unedig ac yn ddiweddarach UNESCO. Credai mewn dod â phlant y cenhedloedd ynghyd, ac fe benderfynodd Syr Ifan y dylai'r Urdd ymuno gyda'r fenter o gyhoeddi'r neges er mwyn dileu'r anwybodaeth a'r rhagfarnau a oedd yn bodoli rhwng cenhedloedd y byd. Darlledwyd y neges am y tro cyntaf ar y BBC World Service yn 1924 ac erbyn heddiw mae'r neges yn ymddangos mewn 34 gwahanol iaith ar y we, ac yn cyrraedd pedwar ban byd. Yn y 50au rhoddwyd cyfrifoldeb i'r Urdd i gyhoeddi Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn flynyddol ar ddydd Ewyllys Da, 18 Mai, sef dyddiad y gynhadledd heddwch gyntaf yn yr Hâg yn 1899.

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.